

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mesur yr Alban Ionawr 2011

Mae'r papur hwn yn rhoi amlinelliad o ddarpariaethau Mesur yr Alban a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 30 Tachwedd 2010. Mae'r Mesur yn rhoi llawer o argymhellion Comisiwn Datganoli'r Alban ("Comisiwn Calman") ar waith ac yn cyflawni un o ymrwymadau Cytundeb Datganoli Llywodraeth y DU.

Nid yw'r Mesur yn effeithio'n uniongyrchol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol nac ar bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae'r datblygiadau cyfansoddiadol yn yr Alban o ddiddordeb, fodd bynnag, o gofio bod Llywodraeth y DU wedi datgan y canlynol yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gynhaliwyd yn ddiweddar: "Depending on the outcome of the forthcoming referendum, the Government will consider with the Welsh Assembly Government the proposals in the final Holtham report, consistent with the work being taken forward in Scotland following the Calman Commission".

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mesur yr Alban
Ionawr 2011

Owain Roberts

Rhif dogfen: 11/001



Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Cefndir: Comisiwn Datganoli'r Alban ("Comisiwn Calman").....	2
3.	Mesur yr Alban.....	4
3.1.	<i>Rhan 1: Y Senedd a'i phwerau</i>	5
3.2.	<i>Rhan 2: Gweinidogion a'u pwerau</i>	7
3.3.	<i>Rhan 3: Cyllid</i>	8
3.4.	<i>Pwyllgor Trethi'r DU a'r Alban</i>	9
3.5.	<i>Newidiadau yn y Grant Bloc</i>	9
3.6.	<i>Rhan 4: Amrywiol a chyffredinol</i>	11
4.	Ymateb i'r Mesur.....	11
5.	Y goblygiadau i Gymru	14

Mesur yr Alban

1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Mesur yr Alban (“y Mesur”) am y tro cyntaf yn Araith y Frenhines ar 25 Mai 2010. Ar y pryd, dywedwyd mai dyma oedd prif elfennau’r Mesur:

- Cryfhau’r setliad datganoli yn yr Alban;
- Rhoi mwy o atebolrwydd ariannol i Senedd yr Alban;
- Adnewyddu’r modd y rhennir cyfrifoldeb dros bolisiau rhwng Senedd y DU a Senedd yr Alban;
- Gwella’r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Gweinidogion yr Alban.¹

Cyflwynwyd y Mesur wedyn gan y Gwir Anrhydeddus Michael Moore AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, a hynny ar 30 Tachwedd 2010.

Wrth groesawu’r ffaith bod y Mesur yn cael ei gyflwyno, dyma ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol am y Mesur:

... is a powerful blueprint which will strengthen Scotland by improving devolution.

Future Scottish governments will have more accountability to the public for the financial decisions they make and will have access to significant borrowing powers. Devolution has worked well over the last decade but today's Bill addresses a number of major issues and takes the settlement forward in a powerful and positive way.

We have created a Bill which is the right one for Scotland and which I am confident will stand the test of time.²

Mewn datganiad i’w wasg, ychwanegodd Swyddfa’r Alban, “the Bill is the largest transfer of financial power from London since the creation of the UK”³ ac mai ei brif nodau a’i amcanion fyddai:

- Rhoi pwerau benthyca i Lywodraeth yr Alban am y tro cyntaf;
- Datganoli pŵer i Senedd yr Alban i bennu cyfradd treth incwm yn yr Alban bob blwyddyn er mwyn codi cyfran sylweddol o’r refeniw y bydd yn ei wario. Bydd y pŵer hwn ar gael o 2015 ymlaen a bydd yr un mor gymwys i’r cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol; a

¹ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Papur Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau 10/058: Araith y Frenhines, Mehefin 2010, Paragraff 2.3 \[darllenwyd ar 3 Rhagfyr 2010\]](#)

² [Datganiad i’r wasg gan Swyddfa’r Alban, Moore publishes Bill to strengthen Scotland’s future, 30 Tachwedd 2010 \[darllenwyd ar 3 Rhagfyr 2010\]](#)

³ Ibid

- Datganoli pwerau i Senedd yr Alban a Gweinidogion yr Alban dros feysydd fel arfau aer, terfynau yfed a gyrru a therfynau gyrru cenedlaethol.⁴

Cyhoeddwyd Papur Gorchymyn ar y cyd â'r Mesur, [Strengthening Scotland's Future](#).

2. Cefndir: Comisiwn Datganoli'r Alban ("Comisiwn Calman")

Penllanw proses a dadleuon a gynhaliwyd dros gyfnod o dair blynedd am ddyfodol cyfansoddiadol yr Alban yw Mesur yr Alban.

Ar 14 Awst 2007, cyhoeddodd llywodraeth SNP leiafrifol yr Alban ddogfen yn dwyn y teitl [Choosing Scotland's future: a National Conversation: Independence and responsibility in the modern world](#). Bwriad y papur oedd dechrau "trafodaeth genedlaethol" am ddyfodol cyfansoddiadol yr Alban ac roedd yn cynnwys gwahanol fathau o newidiadau cyfansoddiadol gan gynnwys pwerau ychwanegol i Senedd yr Alban.

Llwyddodd y ddogfen i uno'r tair prif wrthblaid yn Holyrood sydd o blaid aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Ar 13 Awst 2007, cadarnhaodd y BBC fod arweinwyr y blaid Lafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Senedd yr Alban, sef y Gwir Anrhydeddus Jack McConnell MSP, Annabel Goldie MSP a Nicol Stephen MSP, wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd yn gwrthwynebu cynlluniau'r llywodraeth i gyhoeddi papur gwyn ar refferendwm ar annibyniaeth.⁵ Parhaodd trafodaethau rhwng y gwrthbleidiau ynghylch sut i fwrw ymlaen â'u gwrthwynebiad i'r 'drafodaeth genedlaethol' drwy gydol hydref 2007 ac, ar 6 Rhagfyr, cynhaliwyd dadl yn Senedd yr Alban ar y cynnig a ganlyn o dan y teitl "A New Agenda for Scotland":

That the Parliament, recognising mainstream public opinion in Scotland, supports the establishment of an independently chaired commission to review devolution in Scotland; encourages UK Parliamentarians and parties to support this commission also and proposes that the remit of this commission should be:

To review the provisions of the Scotland Act 1998 in the light of experience and to recommend any changes to the present constitutional arrangements that would enable the Scottish Parliament to better serve the people of Scotland, that would improve the financial accountability of the Scottish Parliament and that would continue to secure the position of Scotland within the United Kingdom, and further instructs the Scottish Parliamentary Corporate Body to allocate appropriate resources and funding for this review.⁶

Wrth wneud y cynnig, dywedodd Wendy Alexander MSP, arweinydd plaid Lafur yr Alban ar y pryd:

⁴ Ibid

⁵ [BBC News Independence statement in full 13 Awst 2007 \[darllenwyd ar 8 Rhagfyr 2010\]](#)

⁶ [A New Agenda for Scotland, S3M-00976, 4 Rhagfyr 2007 \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

It is clear that Scotland wants to walk taller within the United Kingdom, not to walk out ... Let us address the case for greater financial accountability. The review of Scotland's future should be about more than party politics, which is why the leaders of the three main Opposition parties in Scotland—I pay generous tribute to Annabel Goldie and Nicol Stephen—have worked together not only in this place but with our UK counterparts to agree this approach.

Today, the Parliament has the chance to offer its support for an independently chaired commission "to review the provisions of the Scotland Act 1998".

We are actively encouraging Westminster colleagues to support the commission. However, it begins today with this Parliament backing the initiative.⁷

Derbyniwyd y cynnig gyda 76 yn pleidleisio o'i blaid, 46 yn pleidleisio yn ei erbyn a 3 yn atal eu pleidlais. Fe'i cefnogwyd gan y blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr ac fe'i gwrthwynebwyd gan Blaid Genedlaethol yr Alban. Atal eu pleidlais wnaeth y ddau aelod o'r Blaid Werdd ac un MSP annibynnol.⁸

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chefnogaeth i'r Comisiwn ym mis Ionawr 2008 ac ar 25 Mawrth, cyhoeddwyd Comisiwn Datganoli'r Alban yn ffurfiol dan gadeiryddiaeth Syr Kenneth Calman, gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ar y pryd, sef y Gwir Anrhydeddus Des Browne AS. Mewn datganiad ysgrifenedig i Dŷ'r Cyffredin, cyhoeddodd y Gweinidog Gwladol gyloch gorchwyl y Comisiwn, fel y'i cymeradwywyd gan Senedd yr Alban, sef:

To review the provisions of the Scotland Act 1998 in the light of experience and to recommend any changes to the present constitutional arrangements that would enable the Scottish Parliament to serve the people of Scotland better, that would improve the financial accountability of the Scottish Parliament and that would continue to secure the position of Scotland within the United Kingdom.⁹

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol sef, [Serving Scotland Better: Scotland and the United Kingdom in the 21st Century](#), ym mis Mehefin 2009.

Roedd 63 o argymhellion yn yr adroddiad. Bwriad yr argymhellion hyn, yn ôl Syr Keith Calman, oedd:

... improve the financial accountability of the Scottish Parliament, to improve the distribution of powers and functions, to improve joint working between the Parliaments and Governments and encourage cooperation on shared interests, and to strengthen the operation of the Parliament itself. Taken together, we believe these recommendations will enable devolution to serve the people of Scotland better, while also consolidating Scotland's important place within the United Kingdom.¹⁰

⁷ [Adroddiad Swyddogol Senedd yr Alban, 6 Rhagfyr 2007 cm4135 \[darllenwyd ar 16 Rhagfyr 2010\]](#)

⁸ Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn Calman yn [Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, The Commission on Scottish Devolution – the Calman Commission, 4 Mehefin 2010 \[darllenwyd ar 8 Rhagfyr 2010\]](#)

⁹ HC Deb 25 Mawrth 2008 cc7-8WS

¹⁰ [Commission on Scottish Devolution, Message from the Chairman, Sir Kenneth Calman, 15 Mehefin 2009 \[darllenwyd ar 3 Rhagfyr 2010\]](#)

Cyhoeddodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU bapur gwyn yn dwyn y teitl, [Scotland's Future in the United Kingdom](#) ym mis Tachwedd 2009 a oedd yn bwrw ymlaen ag argymhellion Comisiwn Calman ac yn gosod allan y cynlluniau ar gyfer Mesur yr Alban a fyddai'n cael ei gyflwyno ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010. Derbyniodd Arweinydd yr Wrthblaid ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus David Cameron, nifer o amcanion y Papur Gwyn, ond dywedodd na fyddai'r blaid Geidwadol yn cael "ei rhwymo" gan gynigion y Llywodraeth ac y byddent yn cynhyrchu eu Papur Gwyn a'u deddfwriaeth eu hunain i ddelio â'r materion a godwyd gan Calman¹¹ pe baent yn ffurfio llywodraeth ar ôl yr etholiad.

Cynhyrchodd Llywodraeth yr Alban ei Phapur Gwyn ei hun hefyd sef, [Fiscal Autonomy in Scotland: Taking forward our National Conversation](#), ar 24 Chwefror 2009. Roedd y papur hwn yn amlinellu'r achos dros wella'r trefniadau ariannol presennol a'r posibiladau o ran eu diwygio.¹²

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ar 6 Mai 2010, cyhoeddodd clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol [raglen y Llywodraeth](#) a oedd yn cynnwys addewid i roi cynigion Comisiwn Calman ar waith yn yr Alban.¹³

Roedd y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Mesur, yn adlewyrchu'r amcan hwn gan nodi bod y Mesur wedi cadw at ysbryd argymhellion Comisiwn Calman¹⁴ drwyddo draw ac ychwanegodd y sylwadau a ganlyn:

Central to these recommendations was the Commission's view that the Scottish Parliament should be responsible for raising more of its revenue rather than simply spending it. Without those powers, the Parliament lacks the accountability of devolved legislatures in comparable countries.

The Scotland Bill will solve that problem. The Government proposes the largest transfer of fiscal power from London since the creation of the United Kingdom. The Scottish Parliament will move from raising approximately 15% of its own budget to approximately 35%, a level similar to devolved legislatures in Belgium, Italy, Spain and Australia.¹⁵

3. Mesur yr Alban

Mae'r Mesur yn cyflawni llawer o'i amcanion drwy ddiwygio *Deddf yr Alban 1998*¹⁶ ("Deddf 1998"). Mae prif ddarpariaethau'r Mesur wedi'u hamlinellu isod.

¹¹ [The Times, White Paper hands tax-raising powers to Scotland, 25 Tachwedd 2009 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

¹² [Llywodraeth yr Alban, Fiscal Autonomy in Scotland: Taking forward our National Conversation, 24 Chwefror 2010 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

¹³ [Swyddfa'r Cabinet The Coalition: our programme for government, Mai 2010, p.28 \[darllenwyd ar 3 Rhagfyr 2010\]](#)

¹⁴ [Swyddfa'r Alban, Command Paper: Strengthening Scotland's Future, 30 Tachwedd 2010, p.11 \[darllenwyd ar 9 Rhagfyr 2010\]](#)

¹⁵ [Ibid](#)

¹⁶ [Deddf yr Alban 1998 \(c.46\)](#)

3.1. *Rhan 1: Y Senedd a'i phwerau*

Mae **Cymal 1** (“Administration of elections”) yn diwygio Adran 12(1)(a) a (b) o Ddeddf 1998 ac yn trosglwyddo rhai pwerau penodol yn ymwneud ag etholiadau Senedd yr Alban sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu gweithredu gan y Gweinidog Gwladol, i Weinidogion yr Alban. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwerau i wneud darpariaethau ar gyfer cynnal etholiadau Senedd yr Alban
- Cwestiynu'r etholiadau hyn a chanlyniadau unrhyw afreoleidd-dra.

Bydd yn dal yn ofynnol i Weinidogion yr Alban ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn arfer y pwerau hyn.

Mae **Cymal 2** (“Combination of polls at Scottish Parliamentary and other reserved elections”) yn diwygio *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985*¹⁷ sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal etholiadau cyffredinol Senedd yr Alban ac etholiadau Senedd y DU neu Senedd Ewrop gyda'i gilydd os ydynt yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod.

Mae **Cymal 4** (“Presiding Officer and deputies”) yn caniatáu i'r Senedd, ar unrhyw adeg, ethol un dirprwy neu ragor yn ogystal â'r ddau ddirprwy a benodwyd yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf 1998.

Mae **Cymal 5** (“Scottish Parliamentary Corporate Body”) yn diwygio Deddf 1998 er mwyn caniatáu penodi o leiaf pedwar aelod o Senedd yr Alban yn aelodau o Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban. Ar hyn o bryd, ni cheir penodi mwy na phedwar MSP i fod yn aelod o'r Corff Corfforaethol. Bydd unrhyw gynnydd yn nifer aelodau'r Corff Corfforaethol yn cael ei weithredu drwy newid Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban.

Mae **Cymal 6** (“Bills: statements as to legislative competence”) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n gyfrifol am Fesur, nid dim ond Gweinidogion, i wneud datganiad wrth, neu cyn, cyflwyno'r Mesur, yn cadarnhau bod y Mesur o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae **Cymal 7** (“Partial suspension of Acts subject to scrutiny by the Supreme Court”) yn caniatáu gweithdrefn newydd y gellir ei defnyddio i sicrhau bod Mesur yn cael Cydsyniad Brenhinol os dim ond rhan o'r Mesur a gyfeiriwyd at y Goruchaf Lys (o dan Adran 33 o Ddeddf 1998). Os yw Mesur yn cael Cydsyniad Brenhinol a bod rhai o'i ddarpariaethau wedi'u cyfeirio at y Goruchaf Lys, ni fydd y darpariaethau hynny'n weithredol nes ceir penderfyniad ar y materion a gyfeiriwyd at y Goruchaf Lys.

¹⁷ [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 \(c.50\)](#)

Mae **Cymal 8** (“Members’ interests”) yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Senedd yr Alban wrth ddarparu ar gyfer materion yn ymwneud â buddiannau’r Aelodau.

Mae **Cymal 9** (“Constituencies, regions and regional members”) yn diddymu’r darpariaethau trosiannol sydd wedi’u cynnwys yn *Neddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004*¹⁸ nad oes eu hangen bellach.

Mae **Cymal 10** (“Continued effect of provisions where legislative competence conferred for limited period”) yn darparu ar gyfer sicrhau bod unrhyw Ddeddf a wneir gan Senedd yr Alban cyn y daw “oes” cymhwysedd deddfwriaethol i ben (h.y. pan fydd Gorchymyn y Cyfrin Gyngor yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Senedd yr Alban am gyfnod penodol) yn parhau’n weithredol, hyd yn oed dan amgylchiadau pan fo’r cymhwysedd deddfwriaethol perthnasol wedi dod i ben.

Mae **Cymal 11** (“Air weapons”) yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Senedd yr Alban mewn perthynas â rheoleiddio arfau aer. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol, fodd bynnag, yn cadw’r pŵer i wneud rheolau a gorchmynion yn ymwneud ag arfau arbennig o beryglus.

Mae **Cymal 12** (“Insolvency”) yn rhoi’r cyfrifoldeb dros ddeddfu yng nghyswllt rhai elfennau arbennig yn y broses o ddirwyn cwmnïau yn yr Alban i ben yn ôl i Senedd y DU. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, bydd hyn yn caniatáu i Senedd y DU ddiwygio’r gyfraith dirwyn i ben yn yr Alban pan fydd yn gwneud hynny yng Nghymru a Lloegr (lle bo hynny’n briodol o gofio’r gwahanol systemau cyfreithiol).¹⁹

Mae **Cymal 13** (“Regulation of the health professions”) yn rhoi’r cyfrifoldeb dros weithwyr proffesiynol iechyd yn yr Alban yn ôl i Senedd y DU. Yn ôl Deddf 1998 roedd y broses o reoleiddio proffesiynau iechyd yn fater a gadwyd yn ôl a, chan hynny, oddi allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban. Mae Deddf 1998, fodd bynnag, yn diffinio “gweithwyr proffesiynol iechyd” fel y rhai sy’n gweithio yn y proffesiynau a gaiff eu rheoleiddio gan y deddfiadau a restrwyd. Effaith hyn oedd bod y gwaith o reoleiddio unrhyw broffesiwn iechyd nad oedd yn cael eu rheoleiddio gan y deddfiadau a restrwyd yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban. Mae’r Cymal yn cywiro’r anghysonder hwn.

Mae **Cymal 14** (“Antarctica”) yn cadarnhau na fydd pasio Deddfau sy’n ymwneud â rheoleiddio gweithgareddau yn Antarctica yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban.

¹⁸ [Deddf Senedd yr Alban \(Etholaethau\) 2004 \(c.13\)](#)

¹⁹ Nodiadau Esboniadol, paragraff 53

3.2. *Rhan 2: Gweinidogion a'u pwerau*

Mae **Cymal 15** (“The Scottish Government”) yn ailenwi Gweithrediaeth yr Alban a fydd yn cael ei alw’n Llywodraeth yr Alban.

Mae **Cymal 16** (“Time limit for human rights actions against Scottish Ministers etc”) yn pennu terfyn amser i’r rhai sydd am ddwyn achos yn erbyn Gweinidogion yr Alban, o dan Ddeddf 1998, gan honni eu bod wedi ymddwyn yn groes i’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae **Cymal 17** (“BBC Trust member for Scotland”) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron sicrhau cytundeb Gweinidogion yr Alban cyn argymhell y dylid penodi i’r BBC yr aelod cyffredin a fydd yn y swydd yn yr Alban. Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon sy’n gwneud argymhelliad ynglŷn â phwy y dylid ei benodi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i Ymddiriedolaeth y BBC.

Mae **Cymal 18** (“Scottish Crown Estate Commissioner”) yn ei gwneud yn ofynnol i un o Gomisiynwyr Ystâd y Goron gael ei benodi, yn unol ag argymhelliad Canghellor y Trysorlys, fel Comisiynydd Ystâd yr Alban.

Mae **Cymal 19** (“Misuse of drugs”) yn diwygio *Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971*²⁰ ac, mewn effaith, yn rhoi pwerau i Weinidogion yr Alban roi trwyddedau i feddygon sy’n gweithio yn yr Alban i drin pobl sy’n gaeth i gyffuriau.

Mae **Cymal 20** (“Power to prescribe drink-driving limits”) yn diwygio *Deddf Traffig Ffyrdd 1988*²¹ i roi pwerau i Weinidogion yr Alban wneud rheoliadau’n ymwneud â phennu faint o alcohol y caniateir i yrwyr ei yfed yn yr Alban.

Mae **Cymal 21** (“Speed limits”) yn diwygio *Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984*²² yn rhoi pŵer i Weinidogion yr Alban benderfynu ar y terfyn cyflymder cenedlaethol yn yr Alban a phŵer i wneud rheoliadau i benderfynu ar yr arwyddion traffig sy’n nodi’r terfyn hwnnw.

Mae **Cymal 23** (“Implementation of international obligations”) yn darparu ar gyfer sicrhau y gall un darn unigol o is-ddeddfwriaeth, a wnaed gan Weinidogion y DU neu’n dilyn ystyriaeth gan Senedd y DU, sy’n delio â chadw at, neu weithredu, ymrwymïadau rhyngwladol, fod yn weithredol drwy’r Deyrnas Unedig, p’un a yw’n delio â materion sy’n rhan o gymhwysedd datganoledig ai peidio.

²⁰ [Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 \(c.38\)](#)

²¹ [Deddf Traffig Ffyrdd 1988 \(c.52\)](#)

²² [Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 \(c.27\)](#)

3.3. *Rhan 3: Cyllid*

Mae **Cymal 24** (“Taxation: introductory”) yn darparu strwythur sy’n caniatáu i Senedd yr Alban ddeddfu ar drethi sy’n cynnwys pwerau i:

- Bennu cyfradd treth incwm ar gyfer trethdalwyr yr Alban;
- Pennu treth stamp, treth tir a threth tirlenwi; a
- Gwneud darpariaeth ar gyfer threthi datganoledig newydd.

Mae **Cymal 25** (“Amendments relating to the Commissioners for Revenue and Customs”) yn diwygio deddfwriaeth gyfredol i ganiatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi:

- Ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion yr Alban yn ymwneud â threthi datganoledig;
- Sicrhau bod gwybodaeth o’r fath yn gyfrinachol ac yn ddarostyngedig i reolau trosglwyddo gwybodaeth a ddatgelwyd;
- Sicrhau nad yw trethi datganoledig yn rhan o swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi nac yn “fater a glustnodwyd” i’r corff hwnnw.

Mae’r cymal hwn yn gosod allan diwygiadau i *Ddeddf y Comisiynydd Cyllid a Thollau 2005*²³ a *Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979*²⁴ i ddarparu ar gyfer rôl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas â threthi datganoledig.

Mae **Cymal 26** (“Scottish rate of income tax”) yn delio â chyfradd treth incwm yn yr Alban. Mae’n diddymu Rhan 4 o Ddeddf 1998 ac yn ei disodli ag adrannau newydd sy’n rhoi pwerau i Senedd yr Alban bennu cyfradd treth incwm yn yr Alban, i drethdalwyr yr Alban. Rhaid i’r Rheolau Sefydlog ddarparu i sicrhau mai dim ond Aelod o Lywodraeth yr Alban gaiff wneud cynnig i bennu’r gyfradd yn yr Alban. Caiff cyfradd y dreth incwm ei chyfrifo o dan adran 6(2B) o *Ddeddf Treth Incwm 2007*.²⁵

Mae **Cymal 27** (“Income tax for Scottish taxpayers”) yn cyflwyno amrywiol ddiwygiadau i *Ddeddf Treth Incwm 2007*.

Mae **Cymal 28** (“Scottish tax on transactions involving interest in land”) yn un o gyfres o gymalau (ynghyd â chymalau 29, 30 a 31) sydd, gyda’i gilydd, yn darparu ar gyfer mecanwaith i ddirwyn y gwaith o gasglu a rheoli treth tir y doll stamp (“SDLT”) i ben yn yr Alban a chaniatáu i Senedd yr Alban gyflwyno’i threth tir ei hun

²³ [Deddf Comisiynydd Cyllid a Thollau 2005 \(c.11\)](#)

²⁴ [Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 \(c.2\)](#)

²⁵ [Deddf Treth Incwm 2007 \(c.3\)](#)

Mae **Cymal 32** (“Borrowing by the Scottish Ministers”) yn diwygio adrannau 66 a 67 o Ddeddf 1998 i newid yr amgylchiadau sy’n caniatáu i Weinidogion yr Alban fenthyg a phennu’r prif reoliadau a’r terfynau ar fenthyciadau o’r fath. Bydd Gweinidogion yr Alban yn cael cronni dyled o hyd at £2.7bn, a gall £500m o’r ddyled fod yn fenthyciadau cyfredol a gall £2.2bn ohoni fod yn fenthyciadau cyfalaf.

Mae’r Nodiadau Esboniadol hefyd yn nodi’r canlynol:

The borrowing must be in the form of a loan either from the National Loan Fund (through the Secretary of State) or from another lender, such as a commercial bank. The clause does not allow Scottish Ministers to issue Scottish gilts or bonds as the clause requires borrowing to be by way of a loan.²⁶

Mae’r Papur Gorchymyn sy’n cyd-fynd â’r Mesur yn ychwanegu y bydd cronfa arian parod wrth gefn yn cael ei chyflwyno i reoli ansefydlogrwydd mewn derbyniadau treth, i gyd-fynd â’r pwerau benthyca a nodir ar wyneb y Mesur.²⁷

3.4. Pwyllgor Trethi’r DU a’r Alban

Yn ogystal â’r darpariaethau sydd wedi’u cynnwys ar wyneb y Mesur, mae’r Papur Gorchymyn yn cyfeirio at sefydlu pwyllgor trethi’r DU a’r Alban. Ar y Pwyllgor newydd hwn bydd seddi ar gyfer Gweinidogion yr Alban. Mae’r Papur Gorchymyn yn nodi’r canlynol:

Going forward, the relationship between the two governments will need to reflect that both administrations now share a significant tax base in Scotland and there will be a new degree of interdependency around their policies. The UK Government will therefore establish a UK-Scottish tax committee, comprising Ministers from both Governments, which will discuss shared interests in taxation and macroeconomic policy.²⁸

3.5. Newidiadau yn y Grant Bloc

Mewn perthynas â’r newidiadau yn y grant bloc o ganlyniad i’r Mesur, mae’r Papur Gorchymyn yn nodi’r canlynol:

For the duration of the current Spending Review period (from 2010 to 2015), changes to the block grant derived from overall changes to the UK Government expenditure will continue to be calculated by the Barnett formula.²⁹

O 2015 ymlaen fodd bynnag, ar ôl datganoli’r mân drethi o dan y Mesur, caiff newidiadau yn y grant bloc eu cyflwyno fesul cam, er mwyn medru datganoli’r

²⁶ Nodiadau Esboniadol, paragraff 182

²⁷ Ibid

²⁸ [Swyddfa’r Alban, Papur Gorchymyn: Strengthening Scotland’s Future, 30 Tachwedd 2010, t.13 \[Darllenwyd ar 9 Rhagfyr 2010\]](#)

²⁹ [Ibid, p.34 \[Darllenwyd ar 9 December 2010\]](#)

trethi'n raddol a chaniatáu cyfnod pontio.³⁰ Yn yr hirdymor, bydd hyn yn adlewyrchu egwyddor sylfaenol newydd yn y system gyllido a gynigir i'r Alban, sef bod cyfran o'r grant bloc yn cael ei chyfnewid er mwyn i Senedd yr Alban fedru codi ei threthi'i hun.³¹

Yn ôl y Papur Gorchymyn bydd tri cham i'r newidiadau hyn yn y grant bloc:

1. Yn ystod Cam 1 bydd mân drethi'n cael eu datganoli. Ar hyn o bryd, bwriedir i hyn ddigwydd ym mis Ebrill 2015. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r Papur Gorchymyn yn nodi y bydd gostyngiad untro a fydd wedyn yn cael ei ddidynnu o'r grant bloc yn y dyfodol.³²
2. Cyfnod pontio fydd Cam 2 pan fydd y dreth incwm yn cael ei datganoli. Yn ôl y Papur Gorchymyn, bydd y dreth incwm, o fis Ebrill 2016 ymlaen, yn cael ei didynnu bob blwyddyn yn ystod y cyfnod pontio ar sail rhagolygon blynyddol y Swyddfa â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb ar gyfer derbyniadau treth incwm yr Alban.³³
3. Daw Cam 3 ar ôl y cyfnod pontio pan fydd didyniad untro yn y grant bloc a chaiff cyfanswm y gyllideb a bennir yn ôl fformwla Barnett ei haddasu'n gymesur bob blwyddyn gan wneud y didyniad hwn yn barhaol.³⁴

Mae'r cynigion yn y Papur Gorchymyn hwn yn adlewyrchu argymhellion Comisiwn Calman, a nododd y dylid cymhwyso dull cyffredin (sef y model didynnu cymesur) i'r holl drethi datganoledig; dylai'r gostyngiad cyntaf yn y grant bloc gyfateb i'r dreth ddatganoledig yn ystod blwyddyn gyntaf datganoli, a dylai'r gostyngiad yn ystod y blynyddoedd wedyn gyfateb i gyfran sefydlog o'r grant.

Cafodd amlinelliad o'r pedwar mecanwaith y gellid eu defnyddio i gyfrifo'r didyniadau hyn yn y grant bloc ei gynnwys yn adroddiad terfynol Comisiwn Holtham, [Tegwch ac atebolwydd: setliad ariannu newydd i Gymru](#).³⁵

- **didyniad ar sail ein hasesiad ein hunain** – didyniad sydd ynghlwm wrth asesiad o dwf y sylfaen drethi ddatganoledig;
- **didyniad mynegedig** – didyniad cychwynnol sydd ynghlwm wrth newidynnau allanol fel sylfaen drethi berthnasol y DU;
- **didyniad cymesur** – didynnu canran benodol o'r grant; bydd y didyniad cychwynnol yn tyfu i'r un graddau â'r grant; a

³⁰ [Swyddfa'r Alban, Papur Gorchymyn: Strengthening Scotland's Future, 30 Tachwedd 2010, t.33 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

³¹ [Ibid, p.34 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

³² [Ibid, p.34 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

³³ [Ibid, p.35 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

³⁴ [Ibid, p.35 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

³⁵ Mae rhagor o wybodaeth am argymhellion Comisiwn Holtham ar gael yn yr [Hysbysiad Hwylus: Adroddiad Terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru \(Comisiwn Holtham\)](#) a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau

- **gwir ddidyniad sefydlog** – didynnu swm penodol o'r grant, sydd ynghlwm wrth chwyddiant.

Ystyriwyd pob un o'r rhain yn fanwl yn eu tro mewn perthynas â'r sefyllfa yng Nghymru, a cheir enghreifftiau damcaniaethol, ym Mhennod 5 o adroddiad terfynol Comisiwn Holtham.

Mewn perthynas â Chymru, awgrymodd Comisiwn Holtham nad oedd y dull a awgrymwyd gan Gomisiwn Calman yn yr Alban yn debygol o fod yn addas i Lywodraeth y Cynulliad.³⁶ Daeth yr adroddiad hefyd i'r casgliad y byddai angen asesu'r model gorau i bob treth yng Nghymru ac na fyddai'r un model yn debygol o fod yn addas i bob treth.³⁷

3.6. *Rhan 4: Amrywiol a chyffredinol*

Mae **Cymal 33** ("Maximum penalties which may be specified in subordinate legislation") yn newid uchafswm y gosb y gellir ei phennu ar gyfer troseddau a grëwyd mewn perthynas â'r Alban i adlewyrchu'r diwygiadau cyfiawnder diannod a wnaed o dan *The Scottish Parliament in the Criminal Proceedings etc. (Reform) (Scotland) Act 2007*.³⁸ Mae uchafswm y gosb ei gellir ei chymhwyso mewn perthynas â Chymru a Lloegr a gogledd Iwerddon yn aros yr un fath.

Mae **Cymal 34** ("Power to make consequential and transitional provisions") yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys wneud darpariaethau canlyniadol neu drosiannol i'r Mesur drwy orchymyn.

4. Ymateb i'r Mesur

Croesawyd y syniad o ddatganoli rhagor o bwerau i Senedd yr Alban a Gweinidogion yr Alban gan arweinydd yr SNP a Phrif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Alex Salmond MSP, ond dywedodd fod y Mesur yn gadael cwestiynau mawr heb eu hateb.³⁹ Ychwanegodd:

Scotland needs full financial responsibility to boost our recovery, invest in our public services and support long-term sustainable growth. This Bill falls far short of that - it is 'Calman Minus' which threatens to short-change Scotland.

The fiscal powers are far too limited, and for the sake of Scotland's economy and public services the Bill needs to be strengthened - either by the Scottish Parliament or the people.⁴⁰

³⁶ [Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru, Adroddiad Terfynol: Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru, Gorffennaf 2010, paragraff 5.24 \[darllenwyd ar 16 Rhagfyr 2010\]](#)

³⁷ [Ibid](#)

³⁸ [The Scottish Parliament in the Criminal Proceedings etc. \(Reform\) \(Scotland\) Act 2007 \(asp.6\)](#)

³⁹ [Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth yr Alban, Scotland Bill published at Westminster, 30 Tachwedd 2010 \[darllenwyd ar 9 Rhagfyr 2010\]](#)

⁴⁰ [Ibid](#)

O dan gytundeb o'r enw [Confensiwn Sewel](#), ni fydd San Steffan yn pasio Mesur sy'n cynnwys "darpariaethau perthnasol"⁴¹ heb gael cydsyniad Senedd yr Alban yn gyntaf.⁴² Rhoddir y cydsyniad hwn drwy gynnis (Cynnis Cydsyniad Deddfwriaethol) yn y Siambr – ond un o bwllgorau Senedd yr Alban sy'n craffu'n fanwl ar y cynnis ar sail Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Fel arfer, cyflwynir memorandwm o'r fath gan Lywodraeth yr Alban, ond mae Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban yn caniatáu i un aelod nad yw'n aelod o Weithrediaeth yr Alban gyflwyno cynnis a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Dim ond wedi i Lywodraeth yr Alban ei hun gyflwyno memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â'r Mesur y gellir gwneud hyn.⁴³

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â'r Mesur ar 1 Rhagfyr, ond dim ond cefnogaeth amodol a roddodd i'r Mesur. Dyma'r cynnis a gyflwynwyd i Lywodraeth yr Alban :

That the Parliament agrees that the relevant provisions of the Scotland Bill, introduced in the House of Commons on 30 November 2010, relating to air weapons, the misuse of drugs, drink-driving limits, speed limits, Scottish tax on land transactions, and Scottish tax on disposal to landfill, so far as these matters fall within the legislative competence of the Scottish Parliament or alter the legislative competence of the Parliament or the executive competence of the Scottish Ministers, should be considered by the UK Parliament.⁴⁴

Fel ymateb, beirniadodd arweinydd plaid Lafur yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Ian Gray MSP, y modd roedd Llywodraeth yr Alban wedi delio â'r Mesur a chyflwynodd ei Gynnis a'i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei hun a gefnogwyd gan Geidwadwyr yr Alban a Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban.⁴⁵ Roedd hon yn ymgais gan y pleidiau a oedd o blaid parhau'n rhan o'r DU ddangos cefnogaeth lawn i'r Mesur, yn wahanol i gefnogaeth amodol Senedd yr Alban. Dyma'u cynnis nhw:

That the Parliament agrees that the provisions of the Scotland Bill, introduced in the House of Commons on 30 November 2010, should be considered by the UK Parliament.⁴⁶

Mewn dadl ar y mesur yn Senedd yr Alban ar 9 Rhagfyr 2010, cadarnhaodd y Gwir Anrhydeddus Iain Gray MSP ei gefnogaeth i gynigion y Mesur:

This Parliament took matters into its own hands, as any self-respecting Parliament should. We debated and agreed the creation of a cross-party and cross-sectoral commission under the chairmanship of Sir Kenneth Calman, and the then UK Government, respecting that

⁴¹ Mae "darpariaethau perthnasol" yn cynnwys darpariaethau mewn Mesur San Steffan sydd a) yn newid y gyfraith mewn perthynas â "mater datganoledig" neu b) newid cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion yr Alban.

⁴² Mae gweithdrefn debyg hefyd yn gymwys yng Nghymru. Gweler [Hysbysiad Hwylus: Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol](#) a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gael rhagor o wybodaeth.

⁴³ [Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban, Pennod 9B \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

⁴⁴ [Llywodraeth yr Alban, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, 1 Rhagfyr 2010, t.4 \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

⁴⁵ [Herald Scotland, SNP urged to support reforms of Holyrood, 7 Rhagfyr 2010 \[darllenwyd ar 8 Rhagfyr\]](#)

⁴⁶ [Iain Gray MSP, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Mesur yr Alban, 6 Rhagfyr 2010, t.4 \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

parliamentary wish, engaged with the commission and its conclusions and produced a white paper outlining how they could be legislated for at Westminster.

Even the intervention of a bitterly contested general election and the resulting change of Government has not derailed progress towards a stronger devolution settlement. The coalition in Westminster has tabled its Scotland Bill and has undertaken to steer it through the legislative process by next year.⁴⁷

Ymatebodd Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Alex Salmond MSP, drwy ddweud wrth Senedd yr Alban:

I welcome aspects of this debate. I welcome the fact that we are having a constitutional debate in Scotland and that we are debating which powers to transfer to the Scottish Government, the Scottish Parliament and the Scottish people. That is important and should be welcomed. However, it is unfortunate that some measures, even in Calman, have not been devolved ...

The key question for the Scottish Parliament is how we can grow the Scottish economy. We can do that only through independence or having fiscal responsibility. If we as members of a national Parliament are concerned about ensuring that we preserve the welfare of the Scottish people, we cannot in good conscience accept a provision that would have cost us £8 billion over the past 10 years and introduced a deflationary bias. The challenge for the Scotland Bill Committee and the Parliament is to find a mechanism to grow us into a better future in Scotland.⁴⁸

Rhoddodd arweinydd Ceidwadwyr yr Alban, Annabel Goldie MSP, ei chefnogaeth lawn i ddarpariaethau'r Mesur:

The Scotland Bill, which was unveiled on St Andrew's day, reflects the deep thinking and thorough process that culminated in the Calman commission report. The bill will set the direction of the Parliament for the rest of the decade and beyond. It is not a tweak and tinker. It is not merely an MOT. It is a road map for our future. It is the direction of travel that is wanted by the great majority of people in Scotland, and wanted overwhelmingly by the Parliament. It is no coincidence that, as the three unionist parties have come together to make devolution work better, support for independence has hit an historic low. Let us be very clear: we have settled the constitutional question, and devolution has won.⁴⁹

Cafwyd cefnogaeth arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban, Tavish Scott MSP, hefyd i gynigion y Mesur:

The Scotland Bill is an important step forward. It will improve the next session of Parliament and the one after that. MSPs will be more accountable to the people of Scotland and to individuals, organisations and Scottish business. The bill will strengthen Scottish democracy for the future. Surely that is good.⁵⁰

Ychwanegodd:

⁴⁷ [Adroddiad swyddogol gan Senedd yr Alban, 9 Rhagfyr 2010 cml31356 \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

⁴⁸ [Ibid, cm31363 \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

⁴⁹ [Ibid, cm31363 \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵⁰ [Ibid, cm31366 \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

The Scotland Bill is not a panacea for all the challenges that Scotland faces. Many of the key responsibilities are already here and have been since 1999, but some are not. I genuinely look forward to a finance minister introducing a budget in which he or she must set out the tax rates that Scotland will have and why, with no more blame game—a little less of it, anyway—but a real debate in our Parliament here in Scotland about the right spending levels, about the taxes that are necessary to raise the money for schools, hospitals and possibly snow-clearing equipment, about a competitive business environment, about corporate headquarters and about new and dynamic industries that will create jobs.⁵¹

Caiff y Mesur i drafod yn fanwl yn awr gan [Bwyllgor Mesur yr Alban](#) Senedd yr Alban. Ei gylch gwaith yw trafod y Mesur a chyflwyno adroddiad gerbron y Senedd ar unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Nid oes unrhyw ddyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Cynhelir dadl Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin hefyd ond nid yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto. Mae rhagor o wybodaeth am hynt y Mesur drwy ddau Dŷ'r Senedd ar gael ar [wefan Senedd y DU](#).

5. Y goblygiadau i Gymru

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nac i Weinidogion Cymru. Mae'r datblygiadau cyfansoddiadol yn yr Alban, fodd bynnag, o ddiddordeb i Gymru, yn enwedig o gofio'r ymrwymiad a ganlyn a roddwyd gan Lywodraeth y DU yn ei datganiad ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar 20 Hydref 2010:

Depending on the outcome of the forthcoming referendum, the Government will consider with the Welsh Assembly Government the proposals in the final Holtham report, consistent with the work being taken forward in Scotland following the Calman Commission.⁵²

Fersiwn ddiwygiedig o'r hyn a oedd wedi'i gynnwys yng Nghytundeb y Glymblaid rhwng y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol oedd hyn, sef y byddai Llywodraeth y DU yn sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman ar gyfer Cynulliad Cymru"⁵³ gan ddibynnu ar ganlyniad y refferendwm arfaethedig ar bwerau ychwanegol.

Wrth gael ei holi gan Aelodau'r Cynulliad yn ystod cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cymru ar 22 Tachwedd 2010, eglurodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Danny Alexander AS, fod yr ymrwymiad wedi'i ddiwygio yn dilyn gwaith Comisiwn Holtham yn ymwneud ag ariannu datganoli yng Nghymru :

... the coalition agreement refers explicitly to a Calman-like process, which was a commission that was established to take forward the question of fiscal devolution, tax powers, and so on. In a sense ... the language in the spending review had evolved slightly. Given the second

⁵¹ [Ibid \[darllenwyd ar 10 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵² [Trysorlys Ei Mawrhydi, Adolygiad o Wariant 2010, Hydref 2010 \[darllenwyd ar 15 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵³ [Swyddfa'r Cabinet, The Coalition: our programme for government, Mai 2010, t.28 \[darllenwyd ar 3 Rhagfyr 2010\]](#)

Holtham report and the work that has taken place in this area, some people took the language of ‘a Calman-like process’ to imply that we would somehow require a new commission to be established to do the same work again before this issue could be addressed. Given the work of the Holtham commission, I do not think that that is a requirement that we would put on at all, which is why the language has evolved slightly.⁵⁴

Mewn perthynas ag awgrymiadau y dylid dileu fformwla Barnett a chreu trefniadau ariannu newydd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, dyma ddywedodd y Prif Ysgrifennydd wrth y Pwyllgor Cyllid ar 22 Tachwedd:

... our principal priority in terms of economic and fiscal policy is the need to tackle the deficit, to get public spending under control, and to ensure that the country has financial stability going forward over the next few years. I do not believe that this is the time to open up what would be a technical, detailed and lengthy discussion about replacing the Barnett formula.⁵⁵

Dywedodd y Prif Ysgrifennydd, fodd bynnag, y byddai'n ymateb yn ffafriol⁵⁶ pe bai consensws yn y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu mwy o ryddid ariannol mewn perthynas â threthi a benthyca.⁵⁷ Ychwanegodd:

There is a strong case to look at those issues of fiscal responsibility positively in the context of a strengthening devolution settlement, which will potentially be strengthened further by the referendum that has been mentioned by other members of the committee. However, it is very much a matter for you to come forward with proposals, either now or in the future. I, for one, would respond positively to that discussion being opened up.⁵⁸

Dywedodd y Prif Ysgrifennydd hefyd y byddai Llywodraeth y DU yn parhau i drafod y posibiladau o ran datganoli ariannol yng Nghymru hyd yn oed pe pleidleisiwyd yn erbyn pwerau ychwanegol yn y refferendwm arfaethedig, ar yr amod bod yr holl bleidiau yn y Cynulliad Cenedlaethol o blaid datblygiad o'r fath:

If, in the light of a decision by the people of Wales to say ‘no’, it was nonetheless a matter of consensus across the entire Assembly that it wanted to continue the discussion about the sort of fiscal devolution that the second Holtham report is talking about—taxation and borrowing powers and so on—as I said, I would be willing to respond positively ... It seems reasonable to allow space and time for that discussion to take place.⁵⁹

Yn ystod cyfarfod o'r Uwch-bwyllgor Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Rhagfyr 2010, cadarnhaodd Ysgrifennydd yr Economi yn y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Justine Greening AS, y byddai Llywodraeth y DU, ynghyd â Llywodraeth Cymru, yn ystyried cynigion adroddiad terfynol Holtham. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio y byddai'r dull hwn o weithio'n gyson â'r hyn a wnaed yn yr Alban ar ôl Comisiwn Calman.⁶⁰

⁵⁴ [Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Tachwedd 2010, paragraff 152 \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵⁵ [Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 22 Tachwedd 2010, paragraff 119 \[Darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵⁶ [Ibid, paragraff 111 \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵⁷ [Ibid \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵⁸ [Ibid \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

⁵⁹ [Ibid, paragraff 148, \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

⁶⁰ [Ibid \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

Wrth ymateb i gwestiwn gan Elfyn Llwyd AS, dywedodd Ysgrifennydd yr Economi wrth yr Aelodau Seneddol y bydd Llywodraeth y DU yn aros am ganlyniad y refferendwm ar bwerau ychwanegol ym mis Mawrth cyn penderfynu ar natur y trafodaethau a gynhelir ynglŷn â datganoli yng Nghymru:

We are, of course, looking at aspects of the Holtham report and we will no doubt want to set up a process to see how we can take forward discussions on it. I am aware that there will be a referendum in Wales in the spring. There is another aspect from Holtham on legislative powers for primary legislation. We will be looking at what happens in Wales, and on that basis we will get some direction on what the Holtham report might mean for policy going forward.⁶¹

Yn dilyn sylwadau Ysgrifennydd yr Economi, gofynnodd Kevin Brennan AS, am esboniad pellach gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS. Holodd a fyddai dyfodol fformwla Barnett yn dibynnu ar y refferendwm ar bwerau ychwanegol. Fel ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth yr Aelodau Seneddol:

I believe that no such direct linkage was made. However, he is well aware of the wording of the coalition agreement, which says that we will look at a Calman-like process for Wales following the outcome of the referendum that will be held on 3 March.⁶²

Cafwyd rhagor o wybodaeth am farn Llywodraeth y DU am newidiadau posibl i system ariannu Cymru gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, Jane Hutt AC, yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 6 Rhagfyr 2010:

I had observed the scrutiny of Danny Alexander in this committee, and I felt that the Chair summed up very well the disappointment with regard to the Chief Secretary to the Treasury's interpretation of what we felt was a commitment made, not only in the coalition agreement, but in the framework for the comprehensive spending review, which clearly said that the recommendations of the Holtham commission would be looked at after the referendum, and as part of the delivery. I met him straight away and said, 'I think you've got it wrong, Mr Alexander'. What we are concerned about in Wales is that we get our fair funding, which was the first major part of Gerry Holtham's recommendations, recognised as the key point of a commitment by the UK Government to recognising that we are underfunded. I said that the easiest way to start that process was through recognising that we need to implement a funding floor and asked whether I could ask his officials to start to work with my officials on that. He agreed to that, and I wrote to him following that meeting and I emphasised, as I said earlier, our unanimous commitment to the implementation of a funding floor, and said that, given the importance of this issue, I was keen for discussions to start soon and would welcome his confirmation of this to share with finance spokespersons and the Finance Committee. I welcomed his confirmation that he is still open to official-level discussions on how a floor could be made to work. I have put my head on the line here; that is what I said and what I believe that I have secured a commitment from him to look at.

I said that, as far as the referendum is concerned, this is not about part 2 of the Holtham commission's recommendations. I said very clearly that the second part of Gerry Holtham's

⁶¹ [Dadl yr Uwch-bwyllgor Cymreig, 1 Rhagfyr 2010, c11 \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

⁶² [Ibid, c15 \[darllenwyd ar 13 Rhagfyr 2010\]](#)

final report recognised that the fair funding issue had to be dealt with before we went into tax-varying powers, and also highlighted that this should be a matter for the next Government after the elections. So, I hope that we managed to put the record straight in my private meeting with him, and I am very happy to come back to this committee with my correspondence and the response to it. He agreed that he would now look at the funding floor as a result of our interchange.⁶³

⁶³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 6 Rhagfyr 2010, paragraffau 296-297